# Cyngor Gwynedd

# Trefniadau Gweithredu Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

## 1 CEFNDIR

### 1.1 Datganiad o Bwrpas

1.1.1 Mae gan y Pwyllgor rôl barhaus yn y drefn o ddarparu llywodraethu dda. Pwrpas craidd pwyllgor archwilio yw darparu sicrwydd annibynnol ar ddigonolrwydd y fframwaith reoli risg a'r amgylchedd reolaeth gysylltiol, craffu annibynnol o berfformiad ariannol ac anariannol yr awdurdod i'r graddau y mae'n effeithio ar ei amlygiad i risg ac yn gwanhau'r amgylchedd reolaeth, ac i oruchwylio'r broses adrodd ariannol.

1.1.2 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyfarfod o leiaf 4 gwaith mewn blwyddyn.

### 1.2 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

1.2.1 Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 Rhan 6, Pennod 2 rhaid i Cyngor Gwynedd sefydlu pwyllgor archwilio gyda rhai swyddogaethau mandadol, ac mae ganddo hefyd yr hawl i gyflawni unrhyw swyddogaethau addas eraill.

1.2.2 Mae Rhan 81 y Mesur yn datgan:

| | |
|---|---|
| **81** | **Awdurdodau lleol i benodi pwyllgorau archwilio** |
| (1) | Rhaid i awdurdod lleol benodi pwyllgor ("pwyllgor archwilio")— |
| (a) | i arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt, |
| (b) | i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod, |
| (c) | i adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol, |
| (d) | i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny, |
| (e) | i arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod, ac |
| (f) | i adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod. |
| (2) | Caiff awdurdod lleol roi i'w bwyllgor archwilio unrhyw swyddogaethau eraill y mae'r awdurdod o'r farn eu bod yn addas i'w harfer gan y cyfryw bwyllgor. |
| (3) | Y pwyllgor archwilio sydd i benderfynu sut mae i arfer ei swyddogaethau. |

1.2.3 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 Rhan 6, Pennod 2 wedi ei gynnwys yn yr Atodiad.

1.2.4 Yn ogystal â'r rôl statudol yma, mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd yn gyfrifol am adolygu a chraffu ar faterion yn ymwneud â gweithrediad mewnol y Cyngor megis strategaethau corfforaethol, partneriaethau, ymgysylltu, trawsnewid busnes, trefniadau effeithlonrwydd a'r gweithlu.

## 1.3 Pwrpas y trefniadau gweithredu

1.3.1 Pwrpas trefniadau gweithredu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yw:

- Gosod allan sut y bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn arfer ei swyddogaethau, yn unol â Rhan 81(3).
- Cyfeirio at unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru, ac amlinellu sut y bydd y Cyngor yn ymateb iddynt.
- Egluro pa rolau ychwanegol y mae'r Cyngor wedi ei roi i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a sut y bydd yn cyflawni'r rhain.

## 1.4 Canllawiau Llywodraeth Cymru

1.4.1 Mae Rhan 85 o'r Mesur yn datgan:

| | |
|---|---|
| **85** | **Canllawiau** |
| (1) | Caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau i awdurdodau lleol— |
| (a) | ynghylch swyddogaethau pwyllgorau archwilio ac arfer y swyddogaethau hynny, neu |
| (b) | ynghylch aelodaeth o bwyllgorau archwilio. |
| (2) | Rhaid i awdurdod lleol a'i bwyllgor archwilio roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (1). |

1.4.2 Cyhoeddwyd y canllawiau cyfredol yn unol â Rhan 85 o'r Mesur ym Mehefin 2012. Mae'r rhan berthnasol o'r canllawiau statudol yma hefyd wedi ei gynnwys yn yr Atodiad.

1.4.3 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn adroddiad, i'r cyfarfod ymarferol gynharaf, ynglŷn ag unrhyw ganllawiau newydd a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn unol â Rhan 85 o'r Mesur.

Draft

## 2 SWYDDOGAETHAU STATUDOL DAN FESUR 2011

### 2.1 Adolygu materion ariannol yr awdurdod

| |
|---|
| *Sut mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cwrdd â'i ddyletswyddau statudol i arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt, a llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod?* |

2.1.1 Bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau chwarterol gan y Pennaeth Cyllid sydd yn amlinellu sefyllfa cyllidebau refeniw a chyfalaf yr Awdurdod. Nid rôl y Pwyllgor fydd herio penderfyniadau polisi (heblaw lle mae rôl craffu wedi ei bennu iddo), ond yn hytrach derbyn sicrwydd fod trefniadau rheolaeth cyllidebol ac ariannol cadarn yn cael eu harfer ar draws yr Cyngor.

2.1.2 Bydd y Pwyllgor yn craffu a herio'r canlynol:

- Datganiad Polisi Reolaeth Trysorlys ar gyfer y flwyddyn ddilynol yng nghyfarfod Chwefror / Mawrth
- Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, yng nghyfarfod Chwefror / Mawrth
- Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw yng nghyfarfod Chwefror / Mawrth
- Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol ar yng nghyfarfod Chwefror / Mawrth
- Adolygiad Canol Blwyddyn ar weithgarwch Rheolaeth Trysorlys i gyfarfod Tachwedd
- Adroddiad blynyddol ar wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys i gyfarfod Medi

2.1.3 Rhoddir ystyriaeth i unrhyw addasiadau i'r Strategaeth Rheolaeth Trysorlys neu Ddatganiadau Polisi yng nghanol blwyddyn ariannol.

### 2.2 Rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol

| |
|---|
| *Sut mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cwrdd â'i ddyletswyddau statudol i adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol? Sut bydd yn llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny?* |

***Codi Ymwybyddiaeth am reoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol***

2.2.1 Er mwyn cyflawni ei rôl yn gyflawn, bydd y Pwyllgor yn codi ymwybyddiaeth ar draws y Cyngor am faterion sy'n ymwneud â rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol.

***Datganiad Llywodraethu Blynyddol***

2.2.2 Rhan o ddyletswyddau allweddol y Pwyllgor fydd cefnogi ac adolygu'r trefniadau ar gyfer paratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, trwy sicrhau fod rhaglen waith y pwyllgor yn cynnwys tasgau i wirio sut mae'r Cyngor yn cynnal ei fframwaith lywodraethu, ac yn adolygu ei effeithiolrwydd.

2.2.3 Cyflwynir y fersiwn drafft o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mehefin.

2.2.4 Bydd y Pwyllgor yn derbyn sicrwydd fod cynnwys cynlluniau gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn derbyn sylw.

***Adroddiadau Archwilio Mewnol***

2.2.5 Bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, sef yr Rheolwr Archwilio.

Draft

2.2.6 Caiff adroddiad ei gyflwyno i bob cyfarfod o'r Pwyllgor sy'n amlinellu canlyniadau gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod blaenorol. Fel arfer, bydd yr adroddiad yma yn cynnwys yr adroddiad archwilio; os mai memorandwm a ryddhawyd, bydd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb byr ohono. Lle'n briodol, bydd yr adroddiad archwilio wedi cael ei osod mewn categori barn sydd yn adlewyrchu safon y rheolaethau mewnol a ddarganfuwyd wrth gynnal yr archwiliad, a pha mor effeithiol oedd y rheolaethau mewnol yn cael eu gweithredu. Nid oes gan y Pwyllgor y grym i orfodi newid i gategori barn unrhyw adroddiad unigol.

2.2.7 Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cymeradwyo unrhyw newidiadau yn y modd y dyrennir adroddiadau i gategori barn.

2.2.8 Cyflwynir gwybodaeth i'r Pwyllgor ynglŷn â chanlyniad gwaith dilyniant gan Archwilio Mewnol ar y cynnydd ar weithrediadau a gytunwyd arnynt yn ystod archwiliadau.

2.2.9 Os darganfyddir gwendidau rheolaeth arwyddocaol a difrifol, neu afreoleidd-dra yn deillio o wendid o'r fath, bydd adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor am ystyried pellach.

***Gwrth Dwyll***

2.2.10 Bydd y Pwyllgor yn hybu diwylliant gwrth dwyll a gwrth lygredd o fewn y Cyngor.

2.2.11 Bydd yn derbyn cadarnhad rheolaidd fod gweithdrefnau'r Cyngor i atal a darganfod twyll yn ei erbyn yn parhau i weithredu'n effeithiol.

2.2.12 Bydd y Pwyllgor yn adolygu a chymeradwyo Strategaeth Gwrth Dwyll a Gwrth Lygredd y Cyngor a'r Cynllun Ymateb i Dwyll.

2.2.13 Ni fydd adroddiad ar fater sydd yn ymwneud ag afreoleidd-dra neu dwyll yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hyd nes bydd unrhyw weithdrefnau troseddol a/neu gwrandawiad disgyblu wedi ei gwblhau.

***Rheoli Risg***

2.2.14 Cyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor er mwyn iddo gael sicrwydd fod y trefniadau rheoli risg yn gweithio yn unol â'r hyn a amlinellir yn Strategaeth Rheoli Risg y Cyngor.

2.2.15 Bydd yn dal swyddogion ac aelodau yn atebol am unrhyw fethiant i roi dyledus sylw i faterion risg.

2.2.16 Fel rhan o'i rôl llywodraethu, bydd yn ystyried y risgiau y mae gwahanol bartneriaethau yn eu cyflwyno i'r Cyngor.

2.2.17 Bydd y Pwyllgor yn ystyried y risgiau y gyflwynir gan brosiectau unigol, a sicrhau fod sylw priodol wedi ei roi i'r risgiau hynny.

***Adroddiadau Archwilwyr a Rheoleiddwyr Allanol***

2.2.18 Fel mater o drefn, bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiad blynyddol gan yr Archwilwyr Ariannol ar Ddatganiadau o Gyfrifon Cyngor Gwynedd a Cronfa Bensiwn Gwynedd.

2.2.19 Bydd hefyd yn derbyn adroddiadau gan yr Archwiliwr Allanol ar unrhyw fater ynglŷn â Llywodraethu Corfforaethol, neu ar faterion sydd o fewn maes gwaith craffu'r Pwyllgor, sef rhai sy'n ymwneud â gweithrediad mewnol y Cyngor.

2.2.20 Yn ogystal â hynny, ddwywaith y flwyddyn bydd y Pwyllgor yn derbyn sicrwydd fod pob argymhelliad neu gynnig i wella gan archwilwyr neu reoleiddwyr allanol yn derbyn sylw, trwy adolygu rhestr ohonynt a cytuno i dynnu o'r rhestr y rhai y mae'r Pwyllgor yn fodlon sydd wedi derbyn sylw dyledus a digonol.

Draft

***Atebolrwydd***

2.2.21 Rhaid i unrhyw swyddog neu aelod sy'n cael ei alw i fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wneud hynny. Rhaid iddynt ateb cwestiynau a ofynnir iddynt oni fyddai'r cwestiwn yn un y byddai hawl ganddynt i wrthod ei ateb mewn llys barn. Gall y pwyllgor wahodd unigolion eraill i fynychu, ond nid oes unrhyw orfodaeth i unrhyw arall wneud hynny.

***Adroddiad Blynyddol***

2.2.22 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cyhoeddi adroddiad blynyddol, gyda chymorth swyddogion perthnasol, ar ei waith yn ystod y cyfnod blaenorol.

## 2.3 Archwilwyr mewnol ac allanol

*Sut mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cwrdd â'i ddyletswyddau statudol i arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod?*

***Archwilio Mewnol***

2.3.1 Bydd y Pwyllgor yn cymeradwyo cynllun gwaith blynyddol y gwasanaeth Archwilio Mewnol ar ôl herio ei gynnwys, a chymeradwyo unrhyw addasiadau yn ystod y flwyddyn.

2.3.2 Fel rhan o'r gwaith yma, mae angen sicrhau fod cysylltiad rhwng y cynllun gwaith blynyddol a risgiau'r Cyngor.

2.3.3 Cyflwynir adroddiad monitro cynnydd yn erbyn y cynllun archwilio cytunedig yn rheolaidd i gyfarfodydd y Pwyllgor.

***Archwilwyr Allanol***

2.3.4 Bydd y Pwyllgor yn derbyn cynllun gwaith yr archwiliwr allanol ar Gyfrifon y Cyngor a Chyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd.

2.3.5 Mae angen i'r Pwyllgor dderbyn adroddiadau amserol ynglŷn ag unrhyw newidiadau yng nghod ymarfer neu safonau proffesiynol y ddarpariaeth Archwilio Mewnol.

2.3.6 Bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw newidiadau i'r gyfundrefn archwilio allanol a awgrymir gan yr Archwiliwr Cyffredinol neu ei gynrychiolydd.

2.3.7 Bydd y Pwyllgor yn sicrhau fod Archwilio Mewnol a'r archwiliwr allanol yn cydymffurfio ag unrhyw brotocol cydweithio rhyngddynt er mwyn sicrhau fod dyblygiad gwaith yn cael ei gadw i'r isafswm bosib.

## 2.4 Datganiadau ariannol

*Sut mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cwrdd â'i ddyletswyddau statudol i adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod?*

2.4.1 Y Pwyllgor Archwilio fydd yn gweithredu fel "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" yn unol â safonau cyfrifeg ac archwilio rhyngwladol.

2.4.2 Bydd y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiadau ariannol yn ddarostyngedig i archwiliad yn ystod mis Gorffennaf pob blwyddyn, wedi iddynt gael eu hardystio gan y Pennaeth Cyllid, gan gynnwys datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd.

2.4.3 Bydd yn derbyn y datganiadau ariannol terfynol cyn 30 Medi pob blwyddyn, gan herio eu cynnwys.

2.4.4 Rhoddir ystyriaeth gan y Pwyllgor i gydymffurfiaeth â pholisïau cyfrifo perthnasol.

Drafft

## 3 DYLETSWYDDAU CRAFFU

### 3.1 Maes Gwaith

3.1.1 Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn gyfrifol am adolygu a chraffu ar faterion yn ymwneud â **gweithrediad mewnol y Cyngor** megis strategaethau corfforaethol, partneriaethau, ymgysylltu, trawsnewid busnes, trefniadau effeithlonrwydd a'r gweithlu.

3.1.2 Fodd bynnag, mae'r Cyfansoddiad yn glir hefyd mai "pwyllgor archwilio" yn unol â Rhan 6 Pennod 2 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yw'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei holl weithredoedd, nid "pwyllgor craffu a throsolwg" yn unol â Rhan 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 a Rhan 6 Pennod 1 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

### 3.2 Trefniadau Gweithredu

3.2.1 Er mwyn sicrhau fod y Pwyllgor yn arddel ei swyddogaethau craffu yn gyson ac i'r safonau disgwyliedig, bydd yn cyfarfod yn rheolaidd gyda Swyddogion Craffu er mwyn cytuno ar faterion i'w craffu, ac unrhyw ymchwiliadau sydd i'w cynnal.

3.2.2 Bydd y Pwyllgor, pan yn arddel ei swyddogaethau craffu, yn gwneud hynny yn unol â'r swyddogaethau penodol hynny a amlinellir yn Rhan 7 o Gyfansoddiad y Cyngor, sef:

**Datblygu ac Adolygu Polisïau**

(a) Ystyried effaith polisïau er mwyn asesu a ydynt wedi gwneud gwahaniaeth;

(b) Cynorthwyo'r Cyngor a'r Cabinet i ddatblygu ei Gyllideb a Fframwaith Polisi trwy ddadansoddi materion polisi yn fanwl;

(c) Cynnal ymchwil, ymgynghoriadau â'r gymuned ac ymgynghoriadau eraill wrth ddadansoddi materion polisi a dewisiadau posibl;

(ch) Holi barn Aelodau'r Cabinet] a/neu Bwyllgorau a Phrif Swyddogion y Cyngor am faterion a chynigion sy'n effeithio ar yr ardal; a

(d) Cysylltu â sefydliadau allanol eraill sy'n gweithredu yn yr ardal, pa un a ydynt yn rhai cenedlaethol, rhanbarthol neu leol, er mwyn sicrhau bod buddiannau pobl leol yn cael eu gwella trwy waith cydweithredol.

**Craffu**

(a) Adolygu a chraffu ar benderfyniadau a pherfformiad y Cabinet a/neu Bwyllgorau a Swyddogion y Cyngor o ran penderfyniadau unigol a thros amser;

(b) Adolygu a chraffu ar berfformiad y Cyngor o ran ei amcanion polisi, ei dargedau perfformiad a/neu feysydd gwasanaeth penodol;

(c) Holi Aelodau'r Cabinet a/neu Bwyllgorau a Phrif Swyddogion y Cyngor ynglŷn â'u penderfyniadau a'u perfformiad, boed hynny'n gyffredinol o gymharu â chynlluniau gwasanaeth a thargedau dros gyfnod o amser, neu o ran penderfyniadau, mentrau neu brosiect penodol;

(ch) Gwneud argymhellion i'r Cabinet a/neu Bwyllgor priodol a/neu'r Cyngor sy'n deillio o ganlyniad y broses graffu;

(d) Adolygu a chraffu ar berfformiad cyrff cyhoeddus eraill a phersonau dynodedig yn yr ardal a gwahodd adroddiadau ganddynt trwy ofyn iddynt annerch y Pwyllgorau Craffu a phobl leol ynglŷn â'u gweithgareddau a'u perfformiad; a

(dd) Holi a chasglu tystiolaeth gan unrhyw unigolyn (gyda'i ganiatâd ef/ei chaniatâd hi).

## 4 EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR

4.1.1 Bydd y Pwyllgor yn cynnal hunanasesiad blynyddol gan ddefnyddio'r rhestr wirio a ddarparwyd gan CIPFA yn ei gyhoeddiad "*Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities and Police*" (2013).

4.1.2 Bydd y Pwyllgor yn mabwysiadu rhaglen hyfforddi addas ar gyfer ei aelodau.

# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 CHAPTER 4**

**RHAN 6**

TROSOLWG A CHRAFFU

**PENNOD 2**

PWYLLGORAU ARCHWILIO

**81 Awdurdodau lleol i benodi pwyllgorau archwilio**

(1) Rhaid i awdurdod lleol benodi pwyllgor ("pwyllgor archwilio")—

(a) i arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt,

(b) i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod.

(c) i adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol,

(d) i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,

(e) i arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod, ac

(f) i adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod.

(2) Caiff awdurdod lleol roi i'w bwyllgor archwilio unrhyw swyddogaethau eraill y mae'r awdurdod o'r farn eu bod yn addas i'w harfer gan y cyfryw bwyllgor.

(3) Y pwyllgor archwilio sydd i benderfynu sut mae i arfer ei swyddogaethau.

**82 Aelodaeth**

(1) Mae awdurdod lleol i benodi aelodau ei bwyllgor archwilio.

(2) Rhaid i awdurdod lleol sicrhau—

(a) bod dwy ran o dair o leiaf o aelodau ei bwyllgor archwilio'n aelodau o'r awdurdod;

(b) bod un aelod o leiaf o'i bwyllgor archwilio'n aelod lleyg;

(c) nad oes mwy nag un o aelodau ei bwyllgor archwilio'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod;

(d) nad yw aelod hŷn ei weithrediaeth yn aelod o'i bwyllgor archwilio.

(3) Nid yw is-adran (2)(c) yn ei gwneud yn ofynnol i aelodaeth pwyllgor archwilio awdurdod lleol gynnwys aelod o weithrediaeth yr awdurdod.

(4) Nid yw penodi person yn aelod o bwyllgor archwilio yn cael effaith os bydd aelodaeth y pwyllgor yn mynd yn groes i is-adran (2) yn syth ar ôl penodi (p'un ai yn rhinwedd y penodi ai peidio).

(5) Mewn achos pan fo un person neu ragor, ar adeg neilltuol, i'w wneud neu i'w gwneud yn aelod neu'n aelodau o bwyllgor archwilio, neu i beidio â bod yn aelod neu'n aelodau o bwyllgor archwilio, mae'r holl newidiadau hynny yn yr aelodaeth i'w hystyried wrth benderfynu a yw aelodaeth y pwyllgor yn mynd yn groes i is-adran (2).

(6) Mae gweithred gan bwyllgor archwilio'n annilys os yw aelodaeth y pwyllgor yn mynd yn groes i is-adran (2).

## 83 Trafodion etc

(1) Mae pwyllgor archwilio i benodi'r person sydd i gadeirio'r pwyllgor (a gaiff fod yn aelod o'r awdurdod neu'n aelod lleyg ond rhaid iddo beidio â bod yn aelod o grŵp gweithrediaeth).

(2) Os nad oes unrhyw grwpiau gwrthblaid, caiff y person sydd i gadeirio'r pwyllgor archwilio fod yn aelod o grŵp gweithrediaeth ond rhaid iddo beidio â bod yn aelod o weithrediaeth yr awdurdod lleol.

(3) Caiff holl aelodau pwyllgor archwilio bleidleisio ar unrhyw gwestiwn y mae'n dod i ran y pwyllgor i'w benderfynu.

(4) Caiff pwyllgor archwilio awdurdod lleol—

(a) ei gwneud yn ofynnol i aelodau a swyddogion yr awdurdod ddod ger ei fron i ateb cwestiynau, a

(b) gwahodd personau eraill i fynychu cyfarfodydd y pwyllgor.

(5) Mae dyletswydd ar unrhyw aelod o awdurdod lleol neu swyddog i awdurdod lleol i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir o dan is-adran (4)(a).

(6) Nid yw is-adran (5) yn ei gwneud yn orfodol i berson ateb unrhyw gwestiwn y byddai gan y person hawl i wrthod ei ateb mewn achosion llys, neu at ddibenion achosion llys, yng Nghymru a Lloegr.

(7) Mae pwyllgor archwilio i'w drin fel pe bai'n bwyllgor i brif gyngor at ddibenion Rhan 5A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (cael mynd i gyfarfodydd a chael gweld dogfennau awdurdodau, pwyllgorau ac is-bwyllgorau penodol).

(8) At ddibennion is-adrannau (1) a (2), mae i'r ymadroddion "grŵp gweithrediaeth" a "grŵp gwrthblaid" yr un ystyr ag yn adran 75.

## 84 Cynnal cyfarfodydd: pa mor aml

(1) Rhaid i bwyllgor archwilio gyfarfod unwaith ym mhob blwyddyn galendr.

(2) Rhaid i bwyllgor archwilio awdurdod lleol gyfarfod hefyd—
- (a) os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu y dylai'r pwyllgor gyfarfod, neu
- (b) os yw traean o leiaf o aelodau o'r pwyllgor yn hawlio cyfarfod drwy gyfrwng un neu ragor o hysbysiad ysgrifenedig a roddir i'r person sy'n cadeirio'r pwyllgor.

(3) Mae dyletswydd ar y person sy'n cadeirio pwyllgor archwilio i sicrhau bod cyfarfodydd y pwyllgor yn cael eu cynnal fel y mae is-adrannau (1) a (2) yn ei gwneud yn ofynnol.

(4) Nid yw'r adran hon yn atal pwyllgor archwilio rhag cyfarfod ac eithrio fel y mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol.

## 85 Canllawiau

(1) Caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau i awdurdodau lleol—
- (a) ynghylch swyddogaethau pwyllgorau archwilio ac arfer y swyddogaethau hynny, neu
- (b) ynghylch aelodaeth o bwyllgorau archwilio.

(2) Rhaid i awdurdod lleol a'i bwyllgor archwilio roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran (1).

## 86 Terfynu aelodaeth pan fo person yn peidio â bod yn aelod o awdurdod

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i berson (P)—
- (a) a benodir yn aelod o bwyllgor archwilio awdurdod lleol, a
- (b) sy'n aelod o'r awdurdod ar adeg y penodiad hwnnw.

(2) Os yw P yn peidio â bod yn aelod o'r awdurdod, mae P hefyd yn peidio â bod yn aelod o'r pwyllgor archwilio.

(3) Ond nid yw is-adran (2) yn gymwys os bydd P—
- (a) yn peidio â bod yn aelod o'r awdurdod oherwydd iddo ymddeol, a
- (b) yn cael ei ailethol yn aelod o'r awdurdod heb fod yn hwyrach na diwrnod ei ymddeoliad.

(4) Mae is-adran (3) yn ddarostyngedig i reolau sefydlog yr awdurdod neu rai'r pwyllgor archwilio.

## 87 Dehongli etc

(1) Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn y Bennod hon ac yn Rhan 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (neu mewn offeryn a wneir o dan y Rhan honno o'r Ddeddf honno) yr un ystyr yn y Bennod hon â'r ystyr sydd i'r ymadroddion cyfatebol Saesneg yn y Rhan honno o'r Ddeddf honno (neu sydd i'r ymadroddion Cymraeg neu i'r ymadroddion cyfatebol Saesneg yn yr offeryn hwnnw).

(2) Yn y Bennod hon—

**Status:** *This is the original version (as it was originally enacted).*

ystyr "aelod hŷn awdurdod lleol" (*"senior member of a local authority"*) yw—

(a) yn achos awdurdod lleol sy'n gweithredu gweithrediaeth arweinydd a chabinet (Cymru), yr arweinydd gweithrediaeth;

(b) yn achos awdurdod lleol sy'n gweithredu gweithrediaeth maer a chabinet, y maer;

mae i "pwyllgor archwilio" ("*audit committee*") yr ystyr sydd iddo yn adran 81;

ystyr "aelod lleyg" (*"lay member"*) yw person nad yw'n aelod o awdurdod lleol.

(3) Wrth gymhwyso'r Bennod hon i awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau amgen—

(a) cyfeiriad at fwrdd yr awdurdod yw cyfeiriad at weithrediaeth yr awdurdod, a

(b) cyfeiriad at gadeirydd bwrdd yr awdurdod yw cyfeiriad at aelod hŷn yr awdurdod.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Canllawiau Statudol a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol 2011

Mehefin 2012

ISBN digidol 978 0 7504 7640 9
© Hawlfraint y Goron 2012
WG15736

# Pennod 9 Pwyllgorau Archwilio

## Canllawiau Statudol a wnaed o dan Adran 85 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

### Cyflwyniad

9.1 Mae Rhan 6 y Mesur yn ymdrin â Throsolwg a Chraffu, gan gynnwys, ym Mhennod 2 o'r Rhan honno, Pwyllgorau Archwilio. Bwriad Llywodraeth Cymru trwy'r darpariaethau hyn oedd sicrhau y byddai gan bob awdurdod lleol yng Nghymru bwyllgor archwilio (fel yr argymhellwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ers 2005). Yn ein barn ni mae pwyllgorau archwilio yn nodweddion cadarnhaol a ddylai gynorthwyo i wella cynllunio strategol a hwyluso'r gwaith o graffu a herio o fewn strwythurau cyngor.

### Yr hyn y mae'r Mesur yn gofyn amdano

9.2 Mae Adrannau 81 i 87 yn gwneud darpariaeth ar gyfer pwyllgorau archwilio. Maent yn mynnu bod pob cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yn penodi pwyllgor archwilio gyda'r swyddogaethau canlynol:

- Adolygu, craffu a dosbarthu adroddiadau ac argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod;
- Adolygu, craffu a dosbarthu adroddiadau ac argymhellion ar ba mor briodol yw trefniadau rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol yr awdurdod;
- Goruchwylio trefniadau archwilio'r awdurdod ac adolygu ei ddatganiadau ariannol.

9.3 Yn ogystal â'r swyddogaethau statudol hyn, gall awdurdod lleol roi swyddogaethau eraill i'r pwyllgor sydd, yn ei dyb ef, yn addas iddo. Gall pob pwyllgor archwilio benderfynu **sut** y mae am gyflawni ei swyddogaethau, ond wrth wneud hynny mae'n **rhaid** rhoi sylw i'r canllawiau hyn.

9.4 Y cyngor llawn a ddylai benderfynu pwy i benodi fel aelodau o'i bwyllgor archwilio a gall benderfynu bod yn rhaid i hyd at draean o'i aelodau fod o'r tu allan i'r cyngor. Mewn gwirionedd, **rhaid** i o leiaf un aelod o'r pwyllgor fod yn aelod lleyg. Caniateir i ddim ond un o aelodau'r pwyllgor fod yn aelod o weithrediaeth y cyngor, ac ni chaniateir yr arweinydd (neu'r maer etholedig). **Rhaid** i'r cyngor roi sylw i'r canllawiau hyn wrth benderfynu ar aelodaeth ei bwyllgor archwilio.

9.5 Aelodau'r pwyllgor eu hunain sy'n penderfynu ar gadeirydd y pwyllgor. Gall fod yn gynghorydd neu'n aelod lleyg ond, os yw'n gynghorydd, ni ddylai fod yn gynghorydd sy'n perthyn i grŵp gydag aelodau yn y weithrediaeth. Eithriad i hyn yw pan nad oes unrhyw grwpiau gan y gwrthbleidiau, ac os felly gall unrhyw aelod o'r pwyllgor fod yn gadeirydd **ac eithrio** unrhyw aelod o'r pwyllgor sydd hefyd yn aelod o'r weithrediaeth. Mae gan bob aelod o'r pwyllgor, gan gynnwys aelodau lleyg, yr hawl i bleidleisio ar unrhyw fater a ystyrir gan y pwyllgor.

9.6 Rhaid i unrhyw swyddog neu aelod sy'n cael ei alw i fynychu cyfarfod o'r pwyllgor archwilio wneud hynny. Rhaid iddynt ateb cwestiynau a ofynnir iddynt oni fyddai'r cwestiwn yn un y byddai hawl ganddynt i wrthod ei ateb mewn llys barn. Gall y pwyllgor wahodd unigolion eraill i fynychu, ond nid oes unrhyw orfodaeth i unrhyw arall wneud hynny.

9.7 Mae trefniadau arferol ynglŷn â bod yn agored yn berthnasol i'r pwyllgor archwilio. Dylid cynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus, dylid cyhoeddi agendâu ac adroddiadau a sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio. Un eithriad i hyn yw pan fo "eitemau eithriedig" yn cael eu hystyried, sef materion sy'n cynnwys yn bennaf drafodaethau ynglŷn ag unigolion wedi'u henwi neu faterion sy'n gyfrinachol o safbwynt masnachol.

9.8 Rhaid i'r pwyllgor gyfarfod unwaith y flwyddyn o leiaf a rhaid iddo hefyd gyfarfod os bydd y cyngor llawn yn penderfynu hynny, neu os bydd traean o aelodau'r pwyllgor yn mynnu bod cyfarfod yn cael ei gynnal. Ar wahân i hynny, gall y pwyllgor gyfarfod pryd y mynno.

**Swyddogaethau pwyllgor archwilio**

9.9 Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymeradwyo cyhoeddiad CIPFA, *"Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities"* ac yn parhau i wneud hynny, ynghyd â'i gyhoeddiad *"A toolkit for Local Authority Audit Committees".*

Gellir dod o hyd i wybodaeth am y cyhoeddiadau hyn ar:

http://secure.cipfa.org.uk/cgi-bin/CIPFA.storefront/EN/product/AU025

http://www.cipfanetworks.net/governance/shop/pubs/default.asp?pub=laatoolkit&page=4

9.10 Er bod y cyhoeddiad cyntaf wedi dyddio braidd (cyhoeddwyd yn 2005) mae ei egwyddorion yn llawn mor berthnasol. Cynghorir awdurdodau lleol i fwrw golwg ar y dogfennau hyn fel rhai atodol i'r canllawiau hyn.

**Adolygu materion ariannol yr awdurdod**

9.11 Mae Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol. Rhaid ystyried bod sefydlu pwyllgor archwilio a rhoi iddo'r ddyletswydd i adolygu materion ariannol yr awdurdod yn barhaus yn helpu i gyflawni'r gofyniad hwn.

9.12 Mae archwilwyr allanol yr awdurdod yn rhoi sylw manwl i'r maes hwn ac mae'n gysylltiedig â dyletswydd y pwyllgor archwilio i oruchwylio'r trefniadau ar gyfer archwiliadau mewnol ac allanol a hefyd yr angen i fonitro'r trefniadau rheolaeth fewnol a rheoli risgiau a wnaed gan yr awdurdod.

9.13 Dylai awdurdodau lleol wneud eu trefniadau eu hunain, o fewn eu cyfansoddiad eu hunain mae'n debyg, er mwyn pennu ffiniau clir rhwng rôl pwyllgor

archwilio a rôl pwyllgor craffu perthnasol. Ar hyn o bryd, byddai'r pwyllgor archwilio'n ceisio gwirio bod systemau rheoi cyllidebol (fel rheolydd mewnol) y cyngor yn gweithio, yn hytrach na chraffu ar wariant, a gall hyn fod yn ffin dderbyniol rhwng rôl y pwyllgor archwilio a'r pwyllgor craffu.

**Rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol**

9.14 Dylai'r sylw i'r mater hwn godi proffil rheoli risgiau fel dull rheoli angenrheidiol o fewn yr awdurdod yn gyffredinol. Trwy adolygu'n rheolaidd, mae'r pwyllgor archwilio yn dod yn rhan sylweddol o strwythur llywodraethu corfforaethol yr awdurdod.

9.15 Dylai'r awdurdod fabwysiadu Datganiad o Ddiben i'w bwyllgor archwilio ar y trywydd sydd wedi'i gynnwys ym Mhennod 2 o ganllawiau CIPFA, sy'n sicrhau mai'r pwyllgor sydd â'r brif swyddogaeth o ofalu bod llywodraethu corfforaethol effeithiol yn ganolog i weithdrefnau'r sefydliad. Felly, dylai'r pwyllgor archwilio allu cael gafael ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Strategaeth Llywodraethu Corfforaethol. Dylai proffil uchel y pwyllgor archwilio roi hwb i hyder y cyhoedd fod gan yr awdurdod ddull cadarn o sicrhau priodoldeb ariannol a sefydliadol.

9.16 Bydd angen i'r pwyllgor archwilio adrodd ar ddigonolrwydd trefniadau rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yr awdurdod a gwneud sylwadau ar eu heffeithiolrwydd yn ogystal â gwneud gwaith dilynol ar y risgiau a nodwyd gan archwilwyr a gofyn am adroddiadau ar y camau a weithredwyd mewn ymateb. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r awdurdod sicrhau bod pwyllgorau archwilio yn cael pob copi o adroddiadau'r archwilydd neu'r crynodeb os yw hwnnw'n fwy priodol.

**Archwilwyr mewnol ac allanol**

9.17 Dylai pwyllgor archwilio sy'n gweithredu'n gywir roi cyngor i brif swyddog ariannol yr awdurdod a fydd yn helpu gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol. Gall y pwyllgor sicrhau bod yr awdurdod yn cadw adroddiadau archwiliadau mewn cof, fel y gellir cynllunio amseriad cyfarfodydd fel eu bod yn cyflawni gwaith dilynol effeithiol gan weithredu argymhellion yr archwilwyr.

9.18 Bydd y pwyllgor archwilio yn disgwyl cyfrannu at y gwaith o gynllunio'r blaenoriaethau archwilio mewnol, cymeradwyo'r rhaglen archwiliadau flynyddol a sicrhau bod gan yr archwilwyr mewnol yr adnoddau angenrheidiol i gyflawni eu gwaith yn effeithiol. Byddant am gyfarfod â Phennaeth yr Archwiliad Mewnol a chael ei adroddiad/hadroddiad blynyddol.

9.19 Hefyd, dylai'r pwyllgor archwilio gael adroddiadau'r archwilwyr allanol a dilyn eu hargymhellion yn ystod y flwyddyn. Dylai fod gan y pwyllgor swyddogaeth i gytuno ag ymateb yr awdurdod i lythyron neu adroddiadau'r archwilydd a dylent hefyd allu cyfarfod â'r archwilydd allanol.

9.20 Yn ogystal, dylai'r pwyllgor archwilio dderbyn ac ystyried adroddiadau gan unrhyw reoleiddwyr neu arolygwyr eraill. Yn hyn o beth, bydd angen i'r awdurdod sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu'n ddianghenraid rhwng y pwyllgor archwilio ac unrhyw bwyllgor trosolwg a chraffu wrth ystyried adroddiadau o'r fath.

## Datganiadau ariannol

9.21 Cyn eu cymeradwyo gan yr awdurdod, dylai'r pwyllgor archwilio ystyried a gwneud sylwadau ar ddatganiadau ariannol drafft ardystiedig yr awdurdod. Byddant am weld i ba raddau y mae'r datganiadau wedi cymryd sylw o adroddiadau archwiliadau yn ystod y flwyddyn ac unrhyw newidiadau a wnaed i'r polisi cyfrifyddu a mecanweithiau rheolaeth fewnol. Gall pwyllgorau archwilio gymeradwyo'r datganiadau ariannol eu hunain os bydd awdurdodau lleol wedi dirprwyo'r grym hwnnw iddynt o dan reoliad 9 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd).

9.22 Dylid defnyddio "pecyn cymorth" CIPFA i gynorthwyo gyda'r gwaith o graffu'n gywir ar y datganiadau hyn.

9.23 Dylai'r cyngor llawn yn arbennig, yn ogystal â'r weithrediaeth, ystyried adroddiadau ac argymhellion y pwyllgor archwilio.

## Aelodaeth

9.24 Nid yw'r rheolau yn adran 15 *et seq* o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn berthnasol i bwyllgorau archwilio. Felly, nid yw'n ofyniad statudol sicrhau bod yna gydbwysedd gwleidyddol pan benodir aelodau'r pwyllgor. Fodd bynnag, rhaid i'r awdurdod benderfynu sawl person nad yw'n gynghorydd a ddylid ei benodi i'r pwyllgor, a dylai pob aelod o'r pwyllgor ddangos eu bod yn meddwl yn annibynnol a bod ganddynt agweddau diduedd a rhaid iddynt gydnabod a deall gwerth y swyddogaeth archwilio. Argymhellir yn gryf bod cydbwysedd aelodau'r pwyllgor o leiaf yr un mor ffafriol i grwpiau nad ydynt yn grwpiau gweithrediaeth ag y byddai o dan reolau cydbwysedd gwleidyddol. Bydd pwyllgor archwilio sy'n cael ei weld fel un sy'n annibynnol ar yr arweinyddiaeth o fudd i'r awdurdod.

9.25 Bydd angen i bob aelod newydd gael hyfforddiant ymsefydlu. Er mai'r gobaith yw y bydd gan gynghorwyr a benodir rhywfaint o arbenigedd perthnasol, ni ellir sicrhau hyn. Y peth pwysig, serch hynny, yw ceisio sicrhau nad oes gan aelodau gyfrifoldebau eraill a all wrthdaro â'u swyddogaeth fel archwilwyr. Gall hynny fod yn arbennig o wir os oes unrhyw aelod o'r weithrediaeth ar y pwyllgor. Hefyd, gall olygu na ddylai aelodau fod â gormod o ymrwymiadau eraill yn gyffredinol fel aelodau o bwyllgorau oherwydd yr ymrwymiad sylweddol sydd ynghlwm wrth fod yn aelod o'r pwyllgor archwilio. Dylai pob aelod gael hyfforddiant a chyfle digonol i ddatblygu, a dylid talu sylw arbennig i'r adran ar hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ym "mhecyn cymorth" CIPFA.

9.26 Dylai'r pwyllgor archwilio geisio sicrhau ei fod yn penodi cadeirydd a fydd yn gadarn ac yn ddigon profiadol i arwain gwaith holi y pwyllgor.

9.27 Rhaid i'r pwyllgor fod ag o leiaf un aelod lleyg ond gallai hyd at draean o'r aelodaeth fod yn aelodau lleyg os mai dyna fydd penderfyniad yr awdurdod. Waeth pa ddull recriwtio a ddefnyddir, dylai'r aelodau lleyg fod yn annibynnol ar y cyngor a heb unrhyw gysylltiad busnes ag ef, er y byddai gwybodaeth am swyddogaethau llywodraeth leol yn bendant o fantais. Wrth benodi aelodau lleyg y mae eu tuedd

wleidyddol yn hysbys, dylai awdurdodau lleol ystyried a yw hyn yn cyfaddawdu'r annibyniaeth ar y cyngor y dylai aelod lleyg ei feddu. Wrth recriwtio eu haelodau lleyg, argymhellir bod cynghorau yn dilyn ymarfer recriwtio cyhoeddus, tebyg i'r un a ddefnyddir i benodi aelodau i bwyllgorau safonau. Argymhellir na ddylai aelod lleyg gael ei benodi am fwy na dau dymor llawn mewn awdurdod lleol. Mae darpariaethau Cod Ymddygiad Aelodau yr awdurdod yn berthnasol i unrhyw aelod lleyg sydd â hawl pleidleisio.

9.28 Fel un o bwyllgorau'r cyngor, dylai cyfarfodydd y pwyllgor archwilio fod yn agored i'r cyhoedd, ac eithrio pan fo materion sydd wedi'u heithrio yn cael eu trafod.